

9. Berf

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

bwyta
bwytais

Dim ond dangos gweithgaredd a wna 'bwyta', nid oes mwy o fanylion yma felly fe'i galwn yn *ferfenw*.

Mae 'bwytais' hefyd yn dangos y weithgaredd ond mae hefyd yn cynnig mwy o fanylion i ni—pwy? *fi* pryd? *yn y gorffennol*. *Berf* yw 'bwytais'.

Berfau Cryno a Berfau Cwmpasog

Bwytais lysiau amser cinio.
`Rwyf wedi bwyta llysiau amser cinio.

Mae 'bwytais' yn ferf un gair, ffurf **gryno**'r ferf.

Mae '`rwyf wedi bwyta' yn rhoi'r un manylion—pwy? *fi* pryd? *yn y gorffennol*
Gan fod angen y ferf 'wyf' (sy'n perthyn i'r berfenw 'bod') yma er mwyn deall yr ystyr yn llawn, gelwir hyn yn ffurf **gwmpasog** (y ffordd hir o gwmpas).

Stad Weithredol a Stad Oddefol y Ferf

Cariodd y ferch ei bag i'r ysgol.
Cariwyd y ferch i'r ysgol wedi iddi ddisgyn ar y cae.

Yn yr enghraifft cyntaf y *ferch* sef goddrych y frawddeg sy'n gwneud y weithred o gario felly dywedir bod *cariodd* yn stad **weithredol** ar y ferf.

Yn y ail enghraifft, nid y ferch sy'n gwneud y weithred o gario, cael ei chario y mae hi, felly dywedir bod *cariwyd* yn stad **oddefol** ar y ferf.

(Gelwir gweithred sy'n cael ei wneud i rywun neu rywbeth yn weithgaredd *goddefol*.)

Y Modd Gorchmynnol

Mae berfau yn y modd gorchmynnol yn rhoi gorchymyn i wneud rhywbeth.

Mae ffurfiau unigol a lluosog i ferfau yn y modd gorchmynnol.

e.e.

<i>Rho</i>	<i>Rhowch</i>
<i>Cymer</i>	<i>Cymerwch</i>
<i>Agora</i>	<i>Agorwch</i>
<i>Gweithia</i>	<i>Gweithiwch</i>

Amserau'r Ferf

Modd Mynegol y Ferf

Mae pedwar amser i fodd mynegol y ferf. *Yn syml, yr hyn a wna'r modd mynegol yw mynegi neu ddweud ffaith.*

Y Presennol

Presennol

...af	<i>e.e</i> gweithia <i>f</i> <i>i</i>
...i	gweithi <i>di</i>
...a [...iff(gwr)/...ith(ben)]	gweithia <i>ef/hi</i>
...wn	gweithiwn <i>ni</i>
...wch	gweithiwch <i>chi</i>
...ant	gweithiant <i>nhw</i>

Defnyddir y ffurf hon i ddisgrifio gweithred sy'n digwydd ar y pryd, e.e.
'Mi welaf i'r haul yn yr awyr, mae hi'n braf'.

Presennol Arferiadol

Gan ddefnyddio'r un terfyniadau gallwn gyfleu arferiad, e.e.
'Edrychaf ar y teledu cyn dod i'r ysgol bob bore'

Mae'r ferf yn cael ei defnyddio i ddangos arferiad yma. Gelwir berf Bresennol sy'n dangos arferiad yn **Bresennol Arferiadol**.

Presennol Amhersonol

...ir	<i>e.e</i> gweith <i>ir</i>
-------	-----------------------------

Mae'r terfyniad hwn yn rhoi'r amser pan ddigwydda'r ferf ond ni wyddwn pwy sydd yn gwneud y ferf felly galwn hon yn ferf amhersonol.

Y Dyfodol

Mae terfyniadau'r dyfodol y ferf yr un rhai a therfyniadau'r presennol (gweler uchod).

Mae'n rhaid penderfynu ai Presennol neu Ddyfodol yw ffurf y ferf o'r ffordd y'i defnyddir hi.

Yn aml, gellir dweud bod ffurfiau cryno yn cael eu defnyddio i gyfleu y Dyfodol, a bod yn rhaid i ni ddefnyddio'r ffurfiau cwmpasog i gyfleu y Presennol.

Y Gorffennol

Gorffennol

...ais	<i>e.e gweithiais i</i>
...aist	<i>gweithiaist ti</i>
...odd	<i>gweithiodd ef/hi</i>
...on	<i>gweithion ni</i>
...och	<i>gweithioch chi</i>
...on	<i>gweithion nhw</i>

Defnyddir yr amser hwn i ddangos rhywbeth sydd wedi digwydd yn y Gorffennol.

Gorffennol Amhersonol

...wyd	<i>e.e gweithwyd</i>
--------	----------------------

Amser Perffaith

`Rwyf i wedi	`Rydym ni wedi
`Rwyf ti wedi	`Rydych chi wedi
`Mae ef/hi wedi	Y maent wedi/Maen nhw wedi

Mae'r amser hwn yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gorffennol, mae'r weithgaredd wedi gorffen. Yn aml, un waith ddigwyddodd y weithgaredd. Dyna pam mae'r weithgaredd yn *berffaith*.

Amser Amherffaith

...wn	<i>e.e derbyniwn i</i>
...it	<i>derbynit ti</i>
...ai	<i>derbynai ef/hi</i>
...en	<i>derbynien ni</i>
...ech	<i>derbyniech chi</i>
...ent	<i>derbynient hwy</i>

e.e: Deuai'r farchnad i'r dref yn wythnosol a heidiai tyrfaedd yno.

Mae'r amser hwn o'r ferf yn dangos gweithgaredd yn y gorffennol ond nid gweithgaredd a ddigwyddodd a orffennodd sydd yma ond rhywbeth a ddigwyddodd fwy nac unwaith, ac nid oes sicrwydd pryd y daeth i ben. Dyma pam y galwn y weithred yn *amherffaith*.

Amherffaith Amhersonol

...id	<i>e.e derbynid</i>
-------	---------------------

Gorberffaith

...(a)swn	<i>e.e</i> derbynaswn
...(a)sit	derbynasit
...(a)sai	derbynasai
...(a)sem	derbynasem
...(a)sech	derbynasech
...(a)sent	derbynasent

(pan yn defnyddio'r gorberffaith yn anffurfiol gellir peidio cynnwys yr 'a')

Mae ffurfiau cwmpasog i'r amser hwn

Yr oeddwn wedi derbyn
Yr oeddet wedi derbyn
Yr oedd wedi prynu
Yr oeddem wedi prynu
Yr oeddent wedi prynu

Y mae'r amser hwn ymhellach yn ôl i'r gorffennol na'r un amser arall, y mae ymhellach yn ôl na'r Gorffennol, y Perffaith a'r Amherffaith.

e.e.

Gwariais fwy o arian na wariaswn erioed o'r blaen.

gwariais— Gorffennol

gwariaswn—Gorberffaith yn cyfeirio at amser cyn y Gorffennol.

Gorberffaith Amherffonol

...asid	<i>e.e.</i> derbynasid
---------	------------------------

e.e.

Yr wyf wedi adrodd stori nas adroddasid ers blynyddoedd.

yr wyf wedi adrodd stori—Perffaith

adroddasid—Gorberffaith yn cyfeirio at amser cyn y Perffaith

Yr Amodol

Defnyddir yr amser hwn er mwyn siarad am beth **fyddech chi'n** ei wneud, yn dibynnu ar amgylchiadau eraill.

...wn	<i>e.e</i> prynwn <i>i</i>
...et	prynet <i>ti</i>
...ai	prynai <i>ef/hi</i>
...en	prynen <i>ni</i>
...ech	pryniech <i>chi</i>
...en	prynen <i>nhw</i>

e.e

Prynwn i gar newydd pe bawn i'n ennill y loteri.

Modd Dibynnol y Ferf

Mae'r Modd Dibynnol yn mynegi amser mewn cymal adferfol
e.e.

Pan fo hi'n braf, awn i'r ardd.

Dydyn ni ddim yn defnyddio'r modd Dibynnol yn aml ar lafar, onibai mewn rhai ymadroddion cyfarwydd.

e.e.

Da boch chi.
Boed fel y bo.

Doed a ddêl.
Pan fo...

Ffuriau Berfol 'Bod'

Presennol

*wyf /`rydw i/
wyt /`rwyd ti
yw, ydyw, mae, os, sydd*

*ydym /`rydyn ni
ydych /`rydych chi
meant*

(Dangoswyd y ffurfiau ffurfiol mewn ysgrifen italig)

Dyfodol

*byddaf
byddi
bydd*

*byddwn
byddwch
byddant*

byddir:amhersonol

Amherffaith

*oeddwn
oeddet
oedd*

*oedden
oeddech
oeddent/oeddynt*

*byddwn
byddet
byddai*

*bydden
byddech
byddent*

oeddid:amhersonol

byddid:amhersonol

Gorberffaith

*buaswn
buaset
buasai*

*buasen
buasech
buasent*

busasid:amhersonol

Dibynnol Amherffaith

*bawn, byddwn
baet, byddet
bai, byddai*

*baem, bydden
baech, byddech
baent, byddent*

‘Pe bawn i....’

Ar ôl **pe**, i gyflew ystyr amodol, rydyn ni’n defnyddio:

pe **bawn i**
pe **baet ti**
pe **bai e/hi**
pe **baen ni**
pe **baech chi**
pe **baen nhw**

Sylwer:

Defnyddir ‘pe’ yn lle ‘os’ i fynegi amheuaeth. Defnyddir ‘pe’ pob amser o flaen berf yn yr **amodol**, yr **amherffaith** neu’r **gorberffaith**.

*Ni ellir defnyddio ‘os’ o flaen berf yn yr
amser amodol, amherffaith na’r gorberffaith*

Felly:

Mae ‘Os y byddai...’ yn **anghywir**.
‘Pe byddai’ sy’n **gywir** gan fod ‘byddai’ yn ferf yn yr **amherffaith**.

Pa bryd sydd angen defnyddio ‘bu’?

‘Rydyn ni’n defnyddio’r ffurf hon i ddangos gweithred sydd wedi digwydd un waith yn y gorffennol.

e.e. ‘Bues i yng Nghaerdydd ddoe’ neu ‘Bûm i yng Nghaerdydd ddoe’

bues i / bûm i (*ffurfiol*)
buest ti
buodd ef / bu ef (*ffurfiol*)
buodd hi / bu hi (*ffurfiol*)
buon ni
buoch chi
buodd y plant

Berfau Diffygiol

Dim ond rhai ffurfiau sydd gan rai berfau yn Gymraeg e.e. dylwn

amodol/amherffaith	gorberffaith	amhersonol
dylwn i	dylaswn	dylid
dylet ti	dylasit	
dylai ef/hi	dylasai ef/hi	
dylen ni	dylasen ni	
dylech chi	dylasech chi	
dylen nhw	dylasen nhw	

Negyddu Berfau

Fel arfer, os ydy'r frawddeg yn negyddol, mae angen treiglo'r ferf.

Clywais i sŵn
Chlywais i ddim sŵn.

Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **C, P** neu **T** mae angen **treiglo'n llaes**.
Os yw'r ferf yn cychwyn â'r llythrennau **B, D, G, Ll, Rh** neu **M** mae angen **treiglo'n feddal**.

e.e

Ches i ddim

Ddywedais i ddim

Gwrthrych Amhendant

Er mwyn creu brawddeg negyddol yn dilyn berf, bydd angen ychwanegu 'ddim' os yn dod o flaen gwrthrych pendant.

(Gwrthrych amhendant = nid yw angen y fannod 'y', 'yr' neu 'r' o'i flaen)

e.e.

Ches i ddim **anrheg** ar fy mhenblwydd.

Gwrthrych Pendant

Os yw gwrthrych y ferf negyddol yn bendant, mae angen defnyddio 'mo' yn hytrach na 'ddim'.

(Gwrthrych pendant—enw priod, teitl, y fannod ac enw, rhagenw)

e.e.

Welais i **mo'r** anrheg o dan y goeden.

Mae angen ychwanegu terfyniad personol at 'mo' pan mai rhagenw yw gwrthrych y ferf.

mohono i
mohonot ti
mohono ef/mohoni hi

mohonon ni
mohonoch chi
mohonyn nhw

Ffurfiâu Amhersonol Negyddol

Rydyn ni'n rhoi 'ni' neu 'nid' o flaen y ferf.

e.e.

Ni welir,

Nid edrychir,

Ni chyhoeddir